YMCHWIL, DOGFENNU

# Rhaglen Gydgysylltu Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt: damcaniaeth newid (crynodeb)

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Ddamcaniaeth Newid ar gyfer Rhaglen Gydgysylltu Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt Cymru. Mae cydgysylltydd a rhanddeiliaid yn cyflenwi'r rhaglen.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 17 Hydref 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 17 Hydref 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gydgysylltu-troseddau-cefn-gwlad-bywyd-gwyllt-damcaniaeth-newid-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


**Cefndir**

**Amcanion a methodoleg yr ymchwil**

**Prif ganfyddiadau**

**Argymhellion**

**Manylion cyswllt**



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gydgysylltu-troseddau-cefn-gwlad-bywyd-gwyllt-damcaniaeth-newid-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cefndir

Yn 2021, creodd Llywodraeth Cymru rôl Cydgysylltydd Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (WRC) fel rhan o Raglen Gydgysylltu Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (WRC). Oherwydd yr effaith gadarnhaol a briodolwyd yn uniongyrchol i'r rôl yn ystod treial 12 mis (Llywodraeth Cymru, 2023), estynnodd y Gweinidogion y cyllid ar gyfer y rôl tan 2025. Ym mis Ebrill 2023 lansiodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru (Strategaeth WRC Cymru) gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, sy'n nodi'r nod strategol i ddarparu ymateb cydgysylltiedig ac effeithiol i WRC wedi'i deilwra i anghenion Cymru. Mae'r Strategaeth hon yn llywio Rhaglen Gydgysylltu WRC, sy'n anelu at gyflawni'r nodau deuol o fynd i'r afael â throseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad a gwella partneriaethau aml-asiantaeth yng Nghymru.

Mae Rhaglen Gydgysylltu WRC yn rhan o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru (LlC) mewn adnoddau i frwydro yn erbyn troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad, wedi'i anelu at ddiogelu cymunedau gwledig, cynefinoedd, bywyd gwyllt ac anifeiliaid eraill. Er gwaethaf ymrwymiad LlC, mae sawl her y mae angen mynd i'r afael â hwy o hyd.  Mae'r rhain yn cynnwys meithrin ymddiriedaeth mewn asiantaethau gorfodi'r gyfraith, cydnabod gofynion penodol cymunedau gwledig, datblygu partneriaethau cydweithredol â rhanddeiliaid, a gwella dealltwriaeth rhanddeiliaid o bwysigrwydd brwydro yn erbyn WRC. Wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn, nod y Rhaglen yw cydbwyso anghenion a buddiannau'r llywodraeth, asiantaethau gorfodi, partneriaid asiantaethau statudol a rhanddeiliaid.

## Amcanion a methodoleg yr ymchwil

Nod yr ymchwil oedd creu Theori Newid (ToC) a Model Rhesymeg cysylltiedig (ToC LM) i fapio mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gydgysylltu-troseddau-cefn-gwlad-bywyd-gwyllt-damcaniaeth-newid-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

disgwyliedig y Rhaglen. Gellir defnyddio'r ToC ar gyfer datblygu'r ymyriad yn ogystal â chynllunio monitro a gwerthuso.

I gyflawni’r nod hwn, cyflawnodd y prosiect bedwar amcan ymchwil:

1. Tynnu ar ddogfennaeth bresennol sy’n ymwneud â Rhaglen Gydgysylltu WRC i ddeall y cyd-destun, y tybiaethau, a rhediad a pherfformiad blaenorol y Rhaglen.
2. Penderfynu ar fewnbynnau allweddol, gweithgareddau, allbynnau, a chanlyniadau disgwyliedig Rhaglen Gydgysylltu WRC i ddatblygu ToC LM drafft.
3. Cydweithio â’r rhanddeiliaid allweddol sy’n gyfrifol am gyflawni Rhaglen Gydgysylltu WRC i ddatblygu a thrafod y ToC LM drafft, nodi tybiaethau a metrigau sylfaenol i fonitro perfformiad yn y dyfodol.
4. Datblygu ToC LM a dangosyddion i gefnogi monitro cynnydd y rhaglen gan ddefnyddio'r mewnwelediadau a gafwyd trwy gasglu data.

Defnyddiwyd ymagwedd aml-ddull ansoddol, a oedd yn cynnwys dadansoddi dogfennau a oedd yn bodoli eisoes yn ymwneud â Rhaglen Gydgysylltu WRC a chasglu data empirig trwy gyfweliad lled-strwythuredig a thri grŵp ffocws. Cynhaliwyd y cyfweliad ansoddol gyda deiliad rôl Cydgysylltydd WRC i nodi eu dealltwriaeth o nodau allweddol y Rhaglen, datblygiadau, heriau, cyflawniadau, a chyfeiriad y dyfodol. Daeth y tri grŵp ffocws â 21 o randdeiliaid ynghyd, gan gynnwys deiliad rôl Cydgysylltydd WRC, rhanddeiliaid gorfodi, rhanddeiliaid nad ydynt yn ymwneud â gorfodi, a rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru. Casglodd y grwpiau ffocws ddata ar ddisgwyliadau a chanfyddiadau rhanddeiliaid o Raglen Gydgysylltu WRC, y rhesymeg y tu ôl i'r rhain, a'r prosesau grŵp sy'n llywio gwaith amlasiantaethol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gydgysylltu-troseddau-cefn-gwlad-bywyd-gwyllt-damcaniaeth-newid-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Prif ganfyddiadau

Cyflwynir y prif ganfyddiadau fel adrannau o'r ToC LM ac maent yn adlewyrchu'r dogfennau a barn cyfranogwyr yr ymchwil. Er mwyn deall y rhesymeg dros Raglen Gydgysylltu WRC, crynhoir y 'cyd-destun' yn gyntaf. Yna, eir i'r afael â phob adran o'r Model Rhesymeg - canlyniadau, allbynnau, gweithgareddau a mewnbynnau. Wedi'i ddilyn gan adolygiad o'r tybiaethau sy'n sail i'r ToC, y risgiau i gyflawni'r canlyniadau, a'r ffynonellau data ar gyfer monitro a gwerthuso.

## Cyd-destun

Rhannwyd tystiolaeth yn ymwneud â chyd-destun y Rhaglen yn bedwar maes. Y rhain oedd heriau diffinio cylch gwaith Rhaglen Gydgysylltu WRC, rhwystrau i gyflawni polisïau a chapasiti'r Rhaglen, rhwystrau i bobl a phrosesau, a rhwystrau i adnoddau a data.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn dymuno cael eglurder ynghylch cwmpas a gweledigaeth Rhaglen Gydgysylltu'r WRC. Mae tystiolaeth yn dangos bod y Rhaglen yn anelu at ddarparu ymateb cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar Gymru gyfan. Mae'n cefnogi asiantaethau gorfodi a phartneriaid statudol yn bennaf i ddarparu ymateb effeithiol a chynaliadwy sy'n gwarchod ac yn gwella cynefinoedd, bywyd gwyllt, a chymunedau gwledig. Er bod cwmpas y Rhaglen yn cael ei siapio gan gyrhaeddiad LIC, teimlai cyfranogwyr y gall hefyd geisio ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid a chefnogi newid gwleidyddol a sefydliadol ehangach wrth flaenoriaethu'r ymateb i WRC.

Cydnabu'r cyfranogwyr y rhwystrau i gyflawni polisi a chapasiti'r Rhaglen, yn arbennig y mater o bwerau heb eu datganoli yng Nghymru a gwahaniaethau diwylliannol sefydliadol. Mae troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yn gorgyffwrdd â meysydd ac asiantaethau datganoledig a heb eu datganoli, a all

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gydgysylltu-troseddau-cefn-gwlad-bywyd-gwyllt-damcaniaeth-newid-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

arwain at wrthdaro a lleihau atebolrwydd wrth gyflawni Rhaglen Gydgysylltu WRC. At hynny, wrth ystyried cynaliadwyedd y Rhaglen, cododd cyfranogwyr yr angen i osgoi gor-gamu (e.e. i feysydd nad ydynt wedi'u datganoli), gor-ymestyn (e.e. ffocws, gweithgareddau, a nodau), a methu â rhoi tystiolaeth o ganlyniadau, a chydbwyso blaenoriaethau rhanddeiliaid sy'n cystadlu â'i gilydd. Nodwyd trosiant uchel swyddogion troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad (WRCO), ymgysylltiad cyfyngedig â rhanddeiliaid, a dibyniaeth y Rhaglen ar ddeiliad rôl Cydgysylltydd WRC fel rhwystrau tebygol yn ymwneud â phobl a phrosesau. Pwysleisiwyd dro ar ôl tro am rwystrau i adnoddau a data yn yr ymchwil, o ran cefnogi ymateb mwy cadarn i WRC a phennu llwyddiant y Rhaglen.

Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod yr angen am gefnogaeth ariannol a phersonél ar gyfer rôl y cydgysylltydd, cyllid i gefnogi'r rhaglen uchelgeisiol o weithgareddau ac allbynnau, a gwell dull o adnabod data, dibynadwyedd, mynediad, cydnawsedd a dadansoddi.

## Canlyniadau

Mae canlyniadau'n cyfeirio at effeithiau hirdymor a thymor byr y Rhaglen a'r newidiadau sy'n deillio o allbynnau'r Rhaglen. Mae canlyniadau hirdymor yn edrych y tu hwnt i'r cyfnod ariannu ar gyfer rôl Cydgysylltydd WRC ac yn canolbwyntio ar effeithiau cymdeithasol, polisi, ymarfer ac amgylcheddol ehangach.

Roedd consensws cyffredinol o'r data mai nod Rhaglen Gydgysylltu WRC yw meithrin ymdeimlad cryf o ddiogelwch a gwella lles cymunedau gwledig yn yr hir dymor. Cyflawnir hyn trwy gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad, ochr yn ochr â gwella hyder yn yr heddlu a lleihau niwed ac ofn. Bydd Strategaeth gynaliadwy a chydgysylltiedig sy'n ymestyn ledled Cymru ac sy'n cyd-fynd â'r DU hefyd yn cefnogi canlyniadau eraill fel amddiffyniad cyfreithiol cryfach, dull gorfodi wedi'i gysoni a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gydgysylltu-troseddau-cefn-gwlad-bywyd-gwyllt-damcaniaeth-newid-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

phartneriaethau cydnerth ymhlith rhanddeiliaid amrywiol. Roedd cyfranogwyr hefyd yn cydnabod bod casglu a dadansoddi data gwell yn ganolog i bob canlyniad arall. At hynny, bydd y Rhaglen yn gwella amddiffyniad ac yn gwella canlyniadau ar gyfer bywyd gwyllt, anifeiliaid eraill, eu cynefinoedd, a'r amgylchedd, yn unol â'r uchelgeisiau a amlinellir yn neddfwriaeth a pholisi Llywodraeth Cymru.

O fewn y cyfnod ariannu tair blynedd presennol (2022-2025), mae canlyniadau tymor byr Rhaglen Gydgysylltu WRC yn canolbwyntio ar gyfeiriad strategol, pobl a phartneriaethau, gallu ac adnoddau, a data a gwybodaeth. Teimlai'r cyfranogwyr fod nodau strategol y Rhaglen yn gyraeddadwy o fewn y cyfnod byr hwn, ochr yn ochr ag aliniad pellach rhwng strategaethau Cymru a'r DU. I gyflawni hyn, pwysleisiwyd yr angen i'r Rhaglen fod yn seiliedig ar dystiolaeth a chynnwys rhanddeiliaid yn weithredol yn ei datblygiad. Tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at bwysigrwydd dull gorfodi cyson a chydgysylltiedig yng Nghymru, gyda blaenoriaeth glir yn cael ei rhoi i fynd i'r afael â'r materion hyn gan uwch arweinwyr. Yn ei dro, bydd y Rhaglen yn cefnogi dioddefwyr troseddau cefn gwlad yn effeithiol, yn atal WRC ac yn sicrhau bod swyddogion gorfodi yn wybodus ac yn hyderus yn eu rolau. Pwysleisiodd y ddwy ddogfen a chyfranogwyr yr angen brys am well strategaeth casglu data i ddeall cyfraddau WRC yn well a llywio gweithrediadau strategol.

## Allbynnau

Allbynnau yw'r cynhyrchion a'r gwasanaethau diriaethol neu fesuradwy sy'n deillio o weithgareddau'r Rhaglen, sy'n helpu i bennu, yn y tymor byr, a yw canlyniadau'n cael eu cyflawni. Nodwyd pedwar categori allbwn sy'n adlewyrchu'r categorïau canlyniadau yn agos: gweithredu strategol, pobl a phartneriaethau, gallu ac adnoddau, a data a gwybodaeth.

Nodwyd lansio'r Strategaeth ynghyd â chyfathrebu clir ar ffocws y Rhaglen a chanlyniadau i randdeiliaid fel allbynnau perthnasol. Yn gysylltiedig â hyn, roedd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gydgysylltu-troseddau-cefn-gwlad-bywyd-gwyllt-damcaniaeth-newid-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

dolen adborth i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei llywio gan randdeiliaid, a bod grwpiau polisi a strategol yng Nghymru a'r DU yn cael eu llywio gan Gydgysylltydd y Rhaglen a WRC. Roedd angen tystiolaethu a monitro meysydd blaenoriaeth, a oruchwyliwyd gan Grwpiau Blaenoriaeth (PGs) a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn adlewyrchu amrywiaeth y rhanddeiliaid arbenigol. Pwysleisiodd y cyfranogwyr hefyd yr angen i'r Strategaeth gael ei hintegreiddio i bolisïau mewnol cyfiawnder troseddol (CJS) a phartneriaid statudol. Yn yr un modd, roedd tystiolaeth o ymateb gorfodi cydlynol a threfnus, yn ogystal ag ymagwedd gydgysylltiedig ymhlith rhanddeiliaid statudol ac anstatudol yn allbynnau allweddol, gan gydnabod yr angen am orfodi a pherchnogaeth rhanddeiliaid ar y Rhaglen. I gyflawni hyn, adnabuwyd darpariaeth adnoddau a chefnogaeth briodol. Roedd y rhain yn cynnwys gwell hyfforddiant a rhannu adnoddau, a blaenoriaethu troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad ymhlith asiantaethau gorfodi, recriwtio a dargadwad cadarn o Swyddogion a phersonél WRC, a dulliau safonol o gasglu, rhannu a monitro data troseddau. Byddai datblygu strategaeth casglu data, trwy fapio rhanddeiliaid a data, hefyd yn cefnogi'r canlyniadau uchod.

## Gweithgareddau

Gweithgareddau yw'r camau a gymerir a'r gwaith a gyflawnir i gyflawni allbynnau a chanlyniadau gosodedig. Cafodd y gweithgareddau a nodwyd yn y dogfennau ac a drafodwyd gan gyfranogwyr eu mapio i'r un pedwar categori allbwn. Roedd gweithredu strategol yn cynnwys cydlynu a gweithredu'r Strategaeth yn effeithiol, rhoi tystiolaeth i PGs, a datblygu cylch adborth effeithiol i randdeiliaid. Roedd pobl a phartneriaethau yn cynnwys cefnogi datblygiad ymateb gorfodi cydlynol i droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad, cydlynu a chefnogi PGs perthnasol, hwyluso ymgysylltu a rhwydweithio rhwng rhanddeiliaid. Roedd gweithgareddau Pobl a Phartneriaethau eraill yn cynnwys datblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu (i hyrwyddo'r Rhaglen ac ymgysylltu â rhanddeiliaid), a darparu cyngor ac arweiniad arbenigol i'r llywodraeth, asiantaethau statudol a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gydgysylltu-troseddau-cefn-gwlad-bywyd-gwyllt-damcaniaeth-newid-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

rhanddeiliaid allweddol.

Byddai capasiti ac adnoddau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cydgysylltydd ddatblygu a hwyluso hyfforddiant a mentora ar gyfer swyddogion gorfodi, a phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd trwy arbenigedd a rhannu adnoddau. Codi ymwybyddiaeth am gyrchu a rhannu data, hwyluso adroddiadau cadarn a chofnodi WRC, casglu data monitro a gwella data gydag ymchwil ysgolheigaidd oedd y gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â data a gwybodaeth.

## Mewnbynnau

Mewnbynnau yw'r adnoddau ariannol, dynol a materol a nodir mewn dogfennau a gan gyfranogwyr yn ôl yr angen i gyflawni canlyniadau'r Rhaglen. Mae'r Rhaglen yn tynnu ar strategaethau allweddol, sef Strategaeth WRC Cymru, Strategaeth NPCC, ac Asesiad Strategol NWCU, fel prif fewnbynnau. Mae’r strwythur llywodraethu presennol, gyda rôl Cydgysylltydd WRC yn rhan annatod o Lywodraeth Cymru ac yn gysylltiedig â swyddogion gorfodi a PDG Cymru, yn fewnbwn hanfodol arall. Mae cyllid rôl Cydgysylltydd WRC tan 2025 yn sicrhau hirhoedledd y Rhaglen, er y nodwyd anghenion ariannu pellach i alluogi ymreolaeth ariannol a chymorth gweinyddol Cydgysylltydd WRC, ac i ariannu gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amcanion y Strategaeth (e.e. hyfforddiant). Ystyriwyd bod y mewnbwn arbenigol gan amrywiol randdeiliaid yn hanfodol (e.e. statudol, y trydydd sector a chymunedau gwledig), yn ogystal ag unigolyn hynod gymwys ar gyfer swydd Cydgysylltydd WRC, yn meddu ar y lefel, yr arbenigedd, y profiad a'r rhwydwaith angenrheidiol. Bydd angen hefyd mynediad at ddata amrywiol (ysgolheigaidd, rhanddeiliaid a CJS) sy'n ymwneud â throseddau a chanlyniadau WRC, ac ar gyfer monitro'r Rhaglen yn barhaus i gefnogi effeithiolrwydd y Rhaglen.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gydgysylltu-troseddau-cefn-gwlad-bywyd-gwyllt-damcaniaeth-newid-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Tybiaethau

Ategir y ToC gan y tybiaethau a nodwyd gan gyfranogwyr ac a dynnwyd o ddogfennau. Mae'r tybiaethau hyn yn adlewyrchu barn rhanddeiliaid ac efallai nad ydynt yn gydnaws â'r strwythur llywodraethu gwirioneddol a'r pwerau sydd ar waith, ac mae angen eu profi fel rhan o werthusiad y Rhaglen. Roedd y prif dybiaethau a nodwyd yn cynnwys ymateb wedi'i flaenoriaethu i WRC ac ymagwedd gydgysylltiedig ymhlith gorfodi a rhanddeiliaid eraill, gyda phwynt cyswllt canolog (Cydgysylltydd WRC), a fyddai'n cefnogi'r gwaith o ganfod, atal ac ymateb i droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad.

## Risgiau

Wrth drafod y canlyniadau dymunol, allbynnau, gweithgareddau, a mewnbynnau, pwysleisiodd y cyfranogwyr risgiau niferus i gyflawni'r rhain. Roedd cynaliadwyedd Rhaglen Gydgysylltu WRC yn bryder craidd ac roedd y cyfranogwyr yn ystyried ei fod yn dibynnu ar barhad ac ehangu cymorth ac adnoddau gan gynnwys cydgysylltydd WRC, darpariaeth gorfodi a chydweithio â rhanddeiliaid. Mynegwyd pryderon ynghylch cwmpas eang y Rhaglen a llwyth gwaith presennol Cydgysylltu WRC, a allai arwain at ddiffyg ffocws a gorgyrraedd. Mae cydbwyso anghenion a blaenoriaethau gwahanol randdeiliaid hefyd yn her.  Codwyd y risg o beidio â nodi ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid 'cywir'. Yn yr un modd, gallai diffyg partneriaeth a chydweithio o fewn ac ar draws y CJS beryglu'r Rhaglen.

Roedd yr holl gyfranogwyr yn cydnabod y risg o ddata gwaelodlin annigonol a'i effaith ar ymateb gorfodi, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a monitro'r Rhaglen. Ar ben hynny, tynnwyd sylw at yr angen am ddehongli data gweinyddol presennol yn ofalus er mwyn osgoi unrhyw ganlyniadau niweidiol i'r Rhaglen.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gydgysylltu-troseddau-cefn-gwlad-bywyd-gwyllt-damcaniaeth-newid-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Data a monitro

Roedd cyfranogwyr yn cael trafferth nodi metrigau a dangosyddion dilys, a mynegwyd pryder y gallai datblygu dangosyddion monitro ochr yn ochr â'r ToC gynyddu'r baich ar y Rhaglen a'r Cydgysylltydd yn ddi-fudd. Un o heriau craidd monitro allbynnau a chanlyniadau'r Rhaglen oedd gwerthuso'r hyn a oedd yn realistig gyraeddadwy mewn cyfnod o dair blynedd, a'r angen hanfodol am ddata gwaelodlin dibynadwy er mwyn gallu barnu canlyniadau'r dyfodol. Mae angen gwella argaeledd data i gefnogi gwerthusiad y Rhaglen. Mae'r adroddiad yn darparu tabl sy'n awgrymu dangosyddion a data posibl, ac yn cynnig cyfleoedd pellach i gasglu data a allai hwyluso monitro'r Rhaglen yn y dyfodol.

# Argymhellion

Mae ToC Rhaglen Gydgysylltu WRC yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer deall sut mae'r Rhaglen yn gweithredu, y mewnbynnau, y gweithgareddau, yr allbynnau a'r canlyniadau disgwyliedig, a thrwy hynny, yr effaith y bydd yn ei chael ar fynd i'r afael â throseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau’r ymchwil, gwnaeth yr ymchwilwyr argymhellion i dîm gweithredu Rhaglen Gydgysylltu WRC Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- adolygiad cyfnodol o’r ToC gyda gwerthusiad o Raglen Gydgysylltu WRC
- Egluro cwmpas a gweledigaeth y Rhaglen a chyfleu hyn yn glir i randdeiliaid fel rhan o’r strategaeth gyfathrebu a ddatblygwyd,
- canolbwyntio ar gynnwys rhanddeiliaid i adeiladu’r Rhaglen, yn ogystal â chydweithio ar draws y CJS i gefnogi datblygiad ymateb WRC ar draws yr holl asiantaethau
- nodi cyfleoedd a chefnogi safoni ymateb gorfodi ar draws y pedwar heddlu yng Nghymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gydgysylltu-troseddau-cefn-gwlad-bywyd-gwyllt-damcaniaeth-newid-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- dyrannu cyllid ar gyfer adnoddau sy'n cefnogi rôl Cydgysylltydd WRC a gweithgareddau ac allbynnau'r Rhaglen am gyfnod y canlyniadau tymor byr, a chynllunio ar gyfer anghenion ariannu Rhaglen hirdymor
- defnyddio’r Rhaglen i yrru’r fenter ar waith i wneud holl droseddau WRC yn gofnodadwy ac yn hysbysadwy, gyda chodau troseddau arwahanol i gynorthwyo gyda manylder a dadansoddi data
- dylunio a datblygu cynllun ymchwil a gwerthuso, sy'n cynnwys mapio rhanddeiliaid a data, gyda'r nod o wella data troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad a dadansoddi a monitro'r Rhaglen

## Manylion cyswllt

Awduron: Athro Cysylltiol Jennifer Maher (Prifysgol De Cymru) a Dr Paolo Baffero (Prifysgol De Cymru)

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Aimee Marks
Ebost: **ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru**

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 98/2023
ISBN digidol: 978-1-83504-848-1

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gydgysylltu-troseddau-cefn-gwlad-bywyd-gwyllt-damcaniaeth-newid-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-gydgysylltu-troseddau-cefn-gwlad-bywyd-gwyllt-damcaniaeth-newid-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.